# Beth yw'r bygythiadau i gynefinoedd arfordirol?

## Bwriad Dysgu

- Gwerthfawrogi sut mae twristiaeth a llygredd yn dylanwadu ar gynefinoedd arfordirol.
- Gwerthfawrogi'r angen am gadwraeth arfordirol.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Saesneg -** | Ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion.<br>Cyfathrebu'n glir gan ddefnyddio geirfa wyddonol berthnasol.<br>Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol. |
| **TGCh -** | Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu. |
| **Daearyddiaeth -** | Nodi cyffelybiaethau a gwahaniaethau er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau. |
| **ADCDF -** | Yr amgylchedd naturiol. |

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Trafod y problemau sydd, ym marn y disgyblion, yn difetha'n traethau.
- Cwblhau'r gweithgaredd graddio diemwnt mewn grwpiau bach.
- Gall y plant ysgrifennu erthygl papur newydd yn dilyn difrod i res o dai.
- Gall y disgyblion greu poster, gan ddefnyddio gwybodaeth maent wedi'i darganfod, i annog pobl i ofalu am ein hamgylchedd glan y môr.
- Maent yn deall sut gellir mynd i'r afael â phroblemau a bod gwaith cadwraeth yn cael ei wneud.
- Dysgu bod sefydliadau, megis Tîm Bioamrywiaeth CNPT, sydd yno i helpu pobl a'r amgylchedd ac sy'n gallu rhoi cyngor.
- Bod yn ddinasyddion cyfrifol a pharchu'r amgylchedd.

## Adnoddau

Memo Cranc!
Taflen Bywyd ar Lan y Môr
Fframiau ysgrifennu papur newydd
Erthygl am Newyddion y Traethau
Surfers against Sewage (www.sas.org.uk)

# Beth yw'r bygythiadau i gynefinoedd arfordirol?

**Amlinelliad o'r Wers**

- Yn y wers hon, gofynnir i'r plant ysgrifennu erthygl papur newydd mewn ymateb i femo'r teulu Cranc i wneud bodau dynol yn fwy ymwybodol o'r niwed y gallent fod yn ei achosi i arfordiroedd, a'r cynefinoedd sydd yno.
- Gadael y plant i ddarllen y memo a anfonwyd gan Mr Cranc sy'n amlygu rhai o'r problemau mae creaduriaid sy'n byw ar ein harfordir yn eu hwynebu. Cynhwysir rhai erthyglau papur newydd fel modelau. Yna gall y plant gynnal ymchwil pellach i'r problemau hyn.
- Wrth ysgrifennu'r erthyglau, mae angen iddynt feddwl am benawdau trawiadol i ddal sylw pobl, ac erthyglau byr sy'n pwysleisio'r broblem. Gallent gael gwybod am sefydliadau sy'n ymwneud â chadwraeth a sôn amdanynt yn yr erthyglau hyn.
- Mae mynd i wefan Cadwraeth Forol (www.mcsuk.org) ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt (www.wildlifetrusts.org) yn llefydd da i ddechrau. Ceir gwybodaeth bellach ar wefan plant Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (http://gowild.wwf.org.uk/gowild/index.asp) a gwefan natur y BBC (http://www.bbc.co.uk/nature/blueplanet/).
- Mae'n bwysig bod plant yn ymwybodol o'r problemau mae ein harfordir yn eu hwynebu, ond hefyd y gellir mynd i'r afael â'r problemau a'r gwaith cadwraeth sy'n cael ei gyflawni. Mae angen iddynt fod yn ymwybodol bod sefydliadau, megis Tîm Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth. A hefyd, gallent hwy eu hunain gymryd rhan mewn prosiectau lleol, fel casglu sbwriel, ac arwain drwy esiampl – parchu cynefinoedd arfordirol a'r creaduriaid sy'n byw yno.


Beth yw effaith twristiaid ar ein hamgylcheddau arfordirol?


Beth gallwn ni ei wneud i leihau'r sbwriel sydd ar ein traethau?

Beth yw effaith beiciau modur ar y twyni?


Pa greaduriaid sydd fwyaf wrth risg esgeulustod dynol?

Pa sefydliadau sydd yno i helpu?





Rwy'n apelio arnoch i ysgrifennu erthyglau papur newydd ar gyfer pobl, er mwyn gwneud iddynt ddechrau meddwl! Does dim ots gennym os ydynt yn ymweld â'n cartrefi, ond rydym ni eisiau iddynt barchu'r llefydd arbennig hyn a'n helpu ni i'w cadw er mwyn i'n plant dyfu i fyny ynddynt.



# Mae angen ffrindiau'r Cranc

## Memo pwysig i holl ffrindiau'r Cranc!

Mae mwy a mwy o bobl yn ymweld â'n cartrefi arfordirol, yn enwedig yn yr haf ar eu gwyliau. Oni bai ein bod yn sicrhau eu bod yn fwy ymwybodol o'r problemau maent yn eu hachosi i ni, bydd ein cynefinoedd yn cael eu dinistrio a byddwn yn ddigartref!

Dyma rhai enghreifftiau o feysydd y gellir ysgrifennu amdanynt:

- Problemau sbwriel ar draethau oherwydd bod cannoedd o bobl nad ydynt yn defnyddio biniau.
- Llygredd yn y môr a achosir gan sbwriel ac olew o longau a charthffosiaeth.
- Bywyd pyllau trai yn cael ei ddifetha gan blant sy'n lladd creaduriaid neu'n peidio â'u dychwelyd i'w cynefinoedd wedi iddynt edrych arnynt.

•Mae rhannau o'r arfordir yn cael eu dinistrio i wneud lle i dai, carafannau, arcedau difyrion a phromenadau mewn rhai datblygiadau twristiaid glan y môr.

